

RHAGLEN OUR BRIGHT FUTURE


Gwerthuso Effaith Polisi

Awst 2018

Beth rydym yn ei olygu wrth sôn am effaith polisi?

Mae effaith polisi'n nod allweddol fel rhan o Raglen Our Bright Future, ochr yn ochr â chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc, yr amgylchedd a chymunedau. Beth bynnag yw ffocws eich prosiect, mae'n debygol eich bod eisoes yn gwneud rhywfaint o weithgarwch perthnasol i ddylanwad polisi neu ymgyrch (boed yn sylweddoli hynny ai peidio!). Gall hyn fod drwy gael busnes lleol i annog newid ymddygiad yn eich ardal, trefnu digwyddiadau dylanwadu gydag aelodau senedol, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fater allweddol, neu annog sefydliadau allanol i ymgorffori ffyrdd penodol o weithio.

Pan rydyn ni'n sôn am 'ymgyrch', cynllun caeth i amser yw hwn gyda nod penodol i ddylanwadu ar unigolyn neu grŵp o randdeiliaid mewn rhyw ffordd. I ddeall beth yw 'nod' ymgyrch clir, rhaid i chi ystyried pa **adwaith** rydych chi am ei weld a chan bwy, o ganlyniad i'ch **gweithredu**. Os ydych chi'n cynnal ymgyrch eisoes neu am ddatblygu ymgyrch newydd, mae'n syniad da meddwl am **yr effaith rydych eisiau ei chreu a sut i'w mesur** cyn gynted â phosib fel rhan o'r broses.



Ffigur 1: Model Cryno o Resymeg y Rhaglen

Pam mae'n bwysig mesur effaith polisi?

Gobeithio eich bod yn gyfarwydd eisoes â manteision gwerthuso i'ch **prosiect** a'r **Rhaglen**. Mae gwerthuso'n galluogi i ni ddeall **canlyniadau ac effeithiau gwahanol weithgareddau a gall ddarparu dysgu gwerthfawr**, yn ogystal â chreu tystiolaeth ategol i 'gyhoeddi' gwerth eich prosiectau, a beth mae'r rhaglen yn ei gyflawni'n gyffredinol. Mae'n bwysig meddwl am werthuso eich ymgyrch cyn gynted â phosib (h.y. wrth ddatblygu syniad eich ymgyrch). Un rheswm dros hyn yw bod meddwl am werthuso'n gallu eich helpu chi i wirio unrhyw dybio ar eich rhan yng nghyswllt beth rydych yn ei ddisgwyl fydd yn digwydd o ganlyniad i'ch gweithgaredd. Hefyd mae'n sicrhau **nad ydych yn colli unrhyw gyfleoedd i gasglu tystiolaeth ochr yn ochr â darparu eich ymgyrch**.

Sut gallwch chi fesur effaith polisi?

Yn yr un modd, efallai eich bod eisoes yn gyfarwydd â'r adnodd 'Model Rhesymeg'. Dangosir elfennau model rhesymeg isod. Yn fras, mae Model Rhesymeg yn galluogi i chi olrhain y cyswllt rhwng beth rydych yn ei gyfrannu at eich ymgyrch (amser, adnoddau, £), y gweithgareddau rydych yn eu cynnal (e.e. digwyddiad, ymgyrch hyrwyddo, diwrnod gweithgarwch) a'r canlyniadau a'r effeithiau o ganlyniad (h.y. newid sydd wedi digwydd o ganlyniad i'ch gweithgaredd). Felly mae'n eich helpu chi i **ddangos a mesur** effaith polisi.



Ffigur 2: Elfennau Model Rhesymeg

Nid oes raid i werthuso effaith polisi fod yn gymhleth – gall fod yn ddefnyddiol meddwl **pa ddata rydych yn eu casglu eisoes** neu sut gall casglu data ffitio yn eich prosesau presennol, cyn i chi ystyried a oes angen i chi ychwanegu rhywbeth newydd. Yn gyffredinol, mae'n well cynllunio ar gyfer amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol, a sicrhau cydbwysedd o ran ehangder a dyfnder y data sy'n cael eu casglu. Dylech ganolbwyntio eich adnoddau ar **dystiolaeth o newid**.

Datblygu Model Rhesymeg eich Ymgyrch


Ar ddiwedd y canllaw hwn (Atodiad 1) rydym wedi cynnwys **templed model rhesymeg gwag**. Bydd hwn yn adnodd defnyddiol i'w ddefnyddio yn nhim eich prosiect neu gyda phobl ifanc, wrth ddatblygu a gwerthuso eich ymgyrch. Isod rydym wedi dadansoddi elfennau penodol o'r model rhesymeg gyda rhai esiamplau, a all helpu i roi ffocws i'ch cynllunio. Rydym wedi rhestru'r camau yn nhrefn eu hymddangosiad ar y model rhesymeg, ond fel dewis arall, efallai y bydd yn well

gennych chi ddechrau gyda'r 'effaith' rydych chi'n gobeithio ei chyflawni a gweithio am yn ôl – mae rhai pobl yn teimlo bod y dull yma o weithio o help.

Gwerthuso Ymgyrch: Nod

Ar dop templed y model rhesymeg mae lle i nod eich ymgyrch. Mewn sawl ffordd, mae datblygu nod ymgyrch da'n debyg i bennu nodau prosiect; gall sicrhau bod eich nodau'n rhai SMART i fod yn effeithiol, h.y. **Penodol, Mesuradwy, Cyaeddadwy, Realistig a Chfyngedig i Amser**. Gall hyn gynnwys meddwl yn fanylach am a) ar bwy rydych chi eisiau cael dylanwad b) beth rydych chi eisiau iddynt ei wneud yn wahanol.

Fel esiampl, yn y llun isod mae Greenpeace yn gofyn i archfarchnadoedd "*Ditch throwaway plastic packaging*". Un rhan o'u hymgyrch yw casglu llawer o enwau ar eu e-ddeiseb i ddangos bod y cyhoedd eisiau gweld y nod yma'n cael ei wireddu.



Ffigur 3: Deiseb Ar-lein Greenpeace¹

Gwerthuso Ymgyrch: Gweithgareddau

Camau cyntaf y model rhesymeg yw mewnbynnau a gweithgareddau. Dyma'r cam i ystyried:

- Beth yw'r **gweithgareddau** yng nghynllun eich ymgyrch? A pha **adnoddau** sydd gennych chi i roi'r gweithgareddau hynny ar waith?

Mewnbynnau yw'r adnoddau sydd eu hangen i wneud i weithgareddau eich ymgyrch ddigwydd. Gall y rhain fod yn amser staff, amser pobl ifanc, neu arian (dylech hefyd neilltuo adnoddau i gasglu data / tystiolaeth).

Gall eich gweithgareddau fod yn eang a chynnwys: arddangosfeydd cyhoeddus; cyfarfod 'dylanwadwyr'; ysgrifennu llythyrau; ymgyrch ar-lein; gweithredu cymunedol; gwaith celf; neu beth bynnag y gallwch feddwl amdano! Y gyfrinach yw meddwl am beth sy'n bosib gyda'r adnoddau sydd ar gael a pha weithgareddau

¹ Gwefan Greenpeace, mynediad 150818: <https://secure.greenpeace.org.uk/page/s/plastic-free-supermarkets>

sydd fwyaf tebygol o **gyrraedd, denu a chael eich grŵp targed i weithredu** er mwyn ysgogi'r newid rydych yn dymuno ei weld.

Gwerthuso Ymgyrch: Allbynnau

Allbynnau yw'r mesurau a'r metrigau cysylltiedig â gweithredoedd neu weithgareddau ymgyrch. Dyma sut rydych chi'n mesur pa gyfran o'r gweithgarwch arfaethedig sydd wedi'i roi ar waith. Efallai y byddwch eisiau pennu allbynnau targed ac mae'n bwysig cofio y dylai'r ffocws fod ar ansawdd ac nid nifer. Er enghraifft:

- Y **gweithgaredd** yw datblygu adnodd ar-lein neu ar gyfryngau cymdeithasol fel fideo ddoniol / e-ddeiseb; yr **allbwn** yw sawl gwaith mae'n cael ei rannu;
- Y **gweithgaredd** yw gofyn am gyfarfod gydag AS; yr **allbwn** yw'r cyfarfod.
- Y **gweithgaredd** yw mynychu digwyddiad (e.e. gŵyl) i gasglu llofnodion; yr **allbwn** yw nifer y llofnodion.

Sylwer y gall allbynnau fod yn ansoddol hefyd.

Gwerthuso Ymgyrch: Canlyniadau

Mae canlyniadau ymgyrch yn arwydd o **gynnydd tuag at gyflawni nod yr ymgyrch**. Mae'r rhain yn gysylltiedig (yn gyffredinol) â rhywun arall yn hyrwyddo eich neges / gofyn neu wneud ymrwymiad i wneud rhywbeth. Fel rheol dylid bod modd cyflawni'r canlyniadau oddi mewn i amserlen eich ymgyrch (h.y. dim angen i lawer iawn o amser fynd heibio cyn gwireddu'r newid a ddymunir). Gall y canlyniadau gynnwys, er enghraifft:

- **AS yn gofyn cwestiwn yn y senedd;**
- **Sylw ar y cyfryngau** i weithgaredd ymgyrch (sylwer: datganiad i'r wasg = allbwn; sylw = canlyniad);
- Hyfforddi athrawon am faterion amgylcheddol (allbwn) **integreiddio'r amgylchedd yn y cwricwlwm** (canlyniad);
- **Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd** ac ymddygiad neu agweddau wedi newid e.e. cyfran uwch o'r gymuned yn ymwybodol o fater penodol;
- **Busnesau'n gwneud ymrwymiad** (e.e. addewid gyhoeddus) i leihau gwastraff plastig.

Gall y canlyniadau fod yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, gall ymdrechion i leihau defnydd o wellt plastig gael eu gweld ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol:

- Mae un **bwyty lleol** wedi ymrwymo i newid i wellt papur;
- **Rhanbarth neu ardal:** Yr Evening Standard yn hyrwyddo ymgyrch ledled Llundain;

- **Cwmni Cenedlaethol** JD Wetherspoon (y DU ac Iwerddon): wedi ymrwmo i stopio defnyddio gwellt plastig.

Gwerthuso Ymgyrch: Effeithiau

Mae effeithiau eich ymgyrch yn ymwneud â chyrraedd nod eich ymgyrch! Mae hyn yn dangos y newid cyffredinol rydych yn ceisio ei sicrhau.

Dyfyniad Enghreifftiol: Mae Ms. Smith, uwch gyfarwyddwr Cynaliadwyedd Fyd-eang, yn dweud bod cwmni X yn symud tuag at leihau defnydd o blastig untro eisoes, ond bod yr ymgyrch "wedi bod yn gatalydd mawr i'n gwaith ni ac wedi cael effaith bositif ar ein cynnydd".

O ran tystiolaeth gwerthuso, gall fod yn anodd iawn priodoli newid i'ch ymgyrch (h.y. cadarnhau bod y newid wedi digwydd o **ganlyniad uniongyrchol i'ch ymgyrch**). Mae dyfyniad fel yr esiampl uchod yn ddelfrydol, ond yn brin yn aml. Fel rheol mae dangos tystiolaeth o'r newid polisi'n ffordd bragmataidd o weithredu. Hefyd gallwn siarad am 'gyfraniad' ac adnabod eich ymgyrch fel **un o'r ffactorau** sy'n arwain at newid cyffredinol. Mae hyn yn bwysig iawn efallai wrth siarad am weithredu ar y cyd.

I grynhoi, gall meddwl am sut gallwch chi werthuso gweithgareddau eich ymgyrch ymlaen llaw eich helpu i gynllunio eich gweithgareddau a dangos tystiolaeth o'r newid rydych chi wedi'i sicrhau. Gall fod yn ddefnyddiol edrych eto ar eich model rhesymeg wrth i'ch ymgyrch fynd rhagddi a'i ddiweddarau fel ymateb i unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau.

ATODIAD 1: Templod Model Rhesymeg ar gyfer Ymgyrch

Nod				
Beth yw nod eich ymgyrch chi?				
Mewnbynnau	Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau	Effeithiau
Amser, arian ac adnoddau'r prosiect.	Beth yw'r gweithgareddau yn eich cynllun ar gyfer yr ymgyrch?	Sut gallech chi fesur neu ddangos tystiolaeth o allbynnau gweithgareddau eich ymgyrch?	E.e. Pa dystiolaeth sydd gennych chi o'ch cynulleidfa darged yn hyrwyddo eich achos?	Sut byddwch chi'n gwybod eich bod wedi cyrraedd eich nod?